

Cofion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Iorwerth a Helen Jones (Peniel) gan i'r ddau dreulio noson yn Ysbyty Glan Clwyd yn ddiweddar. Dymunwn wellhad buan iawn i'r ddau ohonynt ac i'r rhai hynny sy'n dal i wella yn dilyn cyfnod o salwch. Mae sawl un arall o'r Ofalaeth hefyd sydd angen ein gweddïau – rhai ohonynt wedi cael triniaeth yn ddiweddar, eraill yn aros i weld arbenigwyr, ac eraill nad ydynt yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn. Cyflwynwn hwy a'u teuluoedd i ofal Duw gan hyderu y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hamrywiol amgylchiadau, ac y daw gwellhad buan.
- Parhawn i gofio hefyd am y teuluoedd sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ddiweddar a chyflwynwn hwy yn dyner i ofal yr Arglwydd. Gweddïwn eu bod yn profi Duw yn ei holl daioni yn gwarchod drostynt a'i gariad diddiwedd yn eu hamgylchynu ddydd a nos.

Arian Sasiwn y Chwiorydd

Bydd trysorydd eich eglwys yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniadau tuag at gasgliad Sasiwn y Chwiorydd mor fuan â phosibl, os gwelwch yn dda. Cynhelir y Sasiwn yn Llandudno eleni, a hynny ar ddydd Mawrth, Mai 12fed.

I ddod

- **CYMDEITHAS PENIEL** nos Wener, Chwefror 20fed am 7.30 gyda Rod Williams yn rhoi hanes ei ymweliad â Rwsia.
- **PENWYTHNOS IEUENCTID** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 20fed–22ain. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwys Bro Aled. Bydd angen i chi anfon y ffurflen i archebu lle, ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala yn y dyddiau nesaf hyn.
- **WORD ALIVE** – Gwyliau Beiblaidd i arfogi ac adfywio corff Crist ym mharc gwyliau Pontins, Prestatyn LL19 7LA rhwng Mawrth 28ain – Ebrill 2il, ac Ebrill 2il – 6ed. Tocynnau ymwelwyr dydd ar gael: 0871 222 0201 / www.wordaliveevent.org
- **LLANW** – Mae'r amser wedi dod i archebu lle yng ngŵyl Gristnogol Llanw – cyfle i'r teulu cyfan ddatlu'r atgyfodiad – yng Nghricieth rhwng Ebrill 6ed–10fed. Y siaradwr yn oedfaon y bore fydd Dr Rhodri Glyn, a bydd siaradwyr gwahanol yn arwain oedfaon yr hwyr. Mae taflenni gwybodaeth ar gael yn yr Ofalaeth – os nad oes rhai ar gael yn eich eglwys chi, gofynnwch i Mair am rai, os gwelwch yn dda, neu ewch i'r wefan: www.llanw.org.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 8^{fed} Chwefror 2015 (BCND tud.256 / BCN: tud.235)

Darlleniad y Dydd

1 Pedr 1:22-25

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da! Dyma Sul arall o law Duw a chyfle i gydaddoli. Gwyn ein byd! Mae'n dda i ni ymateb i bob cyfle newydd y mae'n ei roi i ni. Croeso cynnes i oedfaon y dydd a gweddïwn am fendith arbennig Duw heddiw ar ei Air tragwyddol.

Mae'r darlleniad o lythyr Pedr yn cyfeirio at y pethau sy'n parhau. Os ydi rhywbeth yn para'n hir, rydan ni fel arfer yn meddwl amdano fel rhywbeth tragwyddol. Roedd yna fferen doffi ar werth pan roeddwn i'n blentyn. Os cofiaf yn iawn, rhyw strided weddol denau o daffi melyn a gwaith cnoi arno oedd hwnnw! 'Everlasting' oedd yr enw arno, ac oedd, mi roedd yn cymryd hydoedd i'w orffen. Yn aml, byddai'r darn olaf a oedd yn drech na'r holl gnoi yn cael ei stwffio i waelod y boced ac yno am ddyddiau nes byddai wedi troi yn rhyw fath o 'superglue', a dwy ochr y boced bellach yn un amlen ludog, er mawr annifyrwch. Er y broliant ar y paced, fyddai'r taffi ddim yn para am byth – na'm dannedd i chwaith, tase hi'n dod i hynny!

Fel blodau'r maes yn darfod, dyna'r gwir. Ond mae 'na rywbeth sydd yn bosibl i ni ei brofi, trwy ras Duw, sy'n dragwyddol ei barhad, ei werth a'i ansawdd. Gair Duw yw hwnnw. Nid y geiriau ar bapur sydd yn y Beibl ond Duw yn siarad hefo'n henaid ac yn cynhesu ei Air ynom. Wrth ddarllen y Beibl mae'r geiriau yn dod yn fyw i ni ac yn dod â ni i adnabod Duw a chredu ynddo a'i gariad, ac yn ei Fab, Iesu, trwy i'r Ysbryd Glân fywhau'r gwirioneddau mawr ynom ni. Mae Gair Duw yn troi'n had bywiol ynom, mae'n cael ei blannu ynom, yn tyfu ac yn aros.

Dyfyniad o Eiseia 40 sydd yn y rhan hon o lythyr Pedr ac mae'n cysylltu'r broffwydoliaeth hefo'i chyflawniad yn y gwaith o bregethu a gwrando'r Efengyl. Dyma reswm da arall dros ddod i gydaddoli. Wrth gyd-wrando'r Efengyl, mae ffydd yn dyfnhau a'r Gair tragwyddol fel petai'n cael gwreiddyn ynom ac yn dod yn gynhaliath i ni. Cynhaliath dros dro fel yr *Everlasting Bar?* Nage, cynhaliath dragwyddol go iawn yn ei barhad a'i ddefnyddioldeb. Mae Gair Duw ynom am ein cynnal am byth er mwyn i ni fedru addoli a chanmol ein Harglwydd am byth – dyna ei bwrpas mawr!

Gweddïwn y bydd pawb o'n plith sydd yn ein calon a'n gweddïau y dyddiau hyn yn cael profi'r Ysbryd yn bywhau'r Gair iddynt ac y byddant yn cael eu cynnal yn nerth tragwyddol Duw.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Job 1:20-22 (BCND tud.459 / BCN: tud.420)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 8^{fed}
- **Oedfa Arbennig i'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig ac edrychwn ymlaen i gael croesawu'r Parch. Hywel Meredydd i sgwrsio am y gwaith y mae *Tearfund* wedi bod yn ei gyflawni yn ddiweddar ac i ystyried sut allwn, fel gofalaeth, gydweithio ymhellach.
- Iau – 12^{fed}
- **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
 - **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Gwener – 13^{eg}
- Gwener – Sul 13^{eg} – 15^{fed}
- **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00–4.30.
 - **Arfogi 15** – Penwythnos i fyfyrwyr ac oedolion ifanc (20-30 oed) i annog ac arfogi cenhedlaeth newydd. Mwy o fanylion trwy ffonio (01678) 520565 neu ar wefan www.souledoutcymru.net.
- Sadwrn – 14^{eg}
- **Arfogi 15** yn Ysgol y Berwyn, y Bala. Er mai penwythnos i fyfyrwyr ac oedolion ifanc yw 'Arfogi', mae croeso ar y dydd Sadwrn i bobl o bob oed i fynd i glywed Tim Chester (un o Weinidogion *The Crowded House* yn Sheffield, sy'n Gyfarwyddwr *Porterbrook Seminary* ac yn awdur ar dros 20 o lyfrau). Thema'r sesiynau fydd 'Ymerodraeth yr Oen: Bod yn Ddisgyblion Cenhadol yn Llyfr y Datguddiad'. Cost y diwrnod fydd £15 os yn cael cinio yn unig, ac £20 os yn cael swper hefyd. Mae angen archebu lle ddechrau'r wythnos hon, os gwelwch yn dda. Mwy o fanylion gan Mair.
- Sul nesaf – 15^{fed}
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 8^{fed}
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 11.00. Yn yr un modd, bydd Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac Ysgol Sul am 2.00.
- Mawrth – 10^{fed}
- Sul nesaf – 15^{fed}
- Cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15.
- Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 8^{fed}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf – 15^{fed}
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul Mheniel am 10.00 ond ni fydd Ysgol Sul yn Saron.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma – 8^{fed}
- Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau – 12^{fed}
- Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf – 15^{fed}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 8^{fed}
- Bydd y Parch. Hywel Meredydd yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf – 15^{fed}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 8^{fed}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 15^{fed}
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 8^{fed}
- Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.
- Sul nesaf – 15^{fed}
- Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00, ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ag oedfa'r bore yn Llanefydd ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.